

# Ymchwil a Datblygu

## Adroddiad Blynyddol:



### YMCHWIL & DATBLYGIAD

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Aneurin Bevan University Health Board

RESEARCH & DEVELOPMENT



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board



Ymchwil Iechyd  
a Gofal **Cymru**  
Health and Care  
Research **Wales**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

# Cynnwys

Rhagair	3
Pam rydyn ni'n gwneud Ymchwil?	5
"Ymchwil – gweithgaredd graidd"	6
Ffrydiau gwaith	7
Seilwaith Llywodraethu Ymchwil:	8
Seilwaith Llywodraethu Ymchwil — Camau Nesaf	9
Y Treial LOCI	10
Cyflawni Ymchwil	11
Ymgorffori i mewn i Ddarparu Gweithredol y GIG	13
Cyflawni Ymchwil — Camau Nesaf	15
Ein Metrigau Perfformiad	16
Cyllid Ymchwil	17
Addysg	18
Addysg — Camau Nesaf	20
Dysgu Amser Cinio	21
Cyfleoedd i'r Gweithlu	22
Cyfleoedd i'r Gweithlu — Camau Nesaf	25
Gwasanaethau Cymorth	27
Lansio ein Rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil!	28
Rôl yr Hyrwyddwyr Ymchwil	29
Blaen Gynllun	30
Cyfeiriadau	32

# Rhagair

**Croeso i adroddiad blynyddol 2024 ar gyfer yr Adran Ymchwil a Datblygu (Ymchwil a Datblygu) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB). Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r gwaith a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod ail flwyddyn ein strategaeth "Ymchwil - Gweithgaredd Graidd" (1), ac mae hefyd yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i ddarparu ymchwil o safon ar draws y Bwrdd Iechyd.**

Mewn blwyddyn fu'n llawn heriau, a gymhlethwyd ymhellach gan gan y pwysau di-flino ar y gwasanaethau a ddarperir gan y GIG, mae Ymchwil a Datblygu BIPAB wedi parhau i wella ansawdd y gwasanaeth. Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed ac effaith gynyddol ein gwaith, o fewn gwasanaethau clinigol ac er budd y bobl rydym yn eu gwasanaethu. Gellir dod o hyd i fanylion nifer o gyflawniadau cadarnhaol yn yr adroddiad hwn.

Trwy'r Dyletswydd Ansawdd (2) mae gan bob sefydliad GIG gyfrifoldeb cyfreithiol i wella ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn barhaus. Mae ymchwil yn rhan annatod o ddarparu gofal diogel, teg a seiliedig ar dystiolaeth.

Ym mis Gorffennaf 2023, lansiodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) Ffram waith Ymchwil a Datblygu y GIG: sut mae 'rhagoriaeth ymchwil' yn edrych (3). Gyda chefnogaeth Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC 026) (4), mae'r fframwaith yn rhoi pwyslais pendant ar ddiwylliant sefydliadol sy'n canolbwyntio ar ymchwil, lle mae ymchwil wedi'i ymgorffori yn y modd y darperir gwasanaethau. Mae cyfrifoldeb lleol dros weithredu'r fframwaith hwn ac er mwyn cydnabod yr atebolrwydd hwn mae'r strategaeth Ymchwil a Datblygu wedi'i halinio â'r fframwaith er mwyn sicrhau bod yr holl elfennau yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyflawni lleol.



**James Calvert**  
Cyfarwyddwr  
Meddygol



**David Bosanquet**  
Cyfarwyddwr  
Meddygol Cyswllt



**Helen Sweetland**  
Aelod Annibynnol



**Jeannette Wells**  
Cyfarwyddwr  
Ymchwil a Datblygu



**Sue Bale**  
Cyfarwyddwr  
Ymchwil a Datblygu



**Susan Palmer**  
Pennaeth Cyflenwi  
Ymchwil




**Abby Waters**  
Rheolwr Cyflenwi  
Ymchwil



**Anna Roynon-Reed**  
Arweinydd Tîm  
Cyflawni Ymchwil



**Danielle Gunter**  
Rheolwr Ymchwil a  
Datblygu



# Rhagair

Mae ffocws mawr wedi bod eleni ar ymgorffori ymchwil yn y modd y darperir gwasanaethau fel mater o drefn yn y GIG, gan gydnabod mai dim ond pan fydd ymchwil yn dod yn rhan naturiol o ofal arferol y gellir gweld cynnydd ystyrlon a chynaliadwy. Trwy gydweithio ag adrannau clinigol a sicrhau addysg a chymorth ymchwil wedi'i deilwra, rydym yn cefnogi mwy o staff ar draws proffesiynau i gymryd rhan mewn ymchwil a'i arwain. Mae'r dull integredig hwn yn fodd o normaleiddio gweithgarwch ymchwil, a chynyddu cyfranogiad.

Rydym yn cydnabod mai dim ond pan fydd tegwch o ran mynediad y bydd posibl gwella canlyniadau iechyd drwy ymchwil. Mae hyn yn parhau i fod yn her, ac rydym yn parhau i weithio tuag at sefydlu presenoldeb Ymchwil a Datblygu pwrpasol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor (GUH) ac Ysbyty Ystrad Fawr, gan geisio cynyddu ein capasiti yn ein safleoedd presennol yn Ysbyty brenhinol Gwent

(RGH) ac Ysbyty Nevill Hall (NHH) ar yr un pryd.

Rydym wedi dangos ystwythder yn wyneb newid, o Adolygiad O'Shaughnessy (5) a datblygiadau o ran cyllid y Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Priso, Mynediad a Thwf Meddyginiaethau wedi'u Brandio (VPAG) (6) i weddnewid llwybrau gwasanaeth o fewn ein Bwrdd Iechyd, rydym wedi llunio ein strategaeth i barhau er mwyn sicrhau ei bod yn aros yn ymatebol, yn wydn ac yn effeithiol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r lluo o gyflawniadau a wireddwyd drwy ymroddiad ac angerdd ein timau ymchwil, ac rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r cleifion sydd wedi dewis cymryd rhan yn yr ymchwil yr ydym yn ei gyflawni. Heb eu cyfraniad, ni allai ymchwil ddigwydd. Gyda'n gilydd, rydym yn parhau i ddangos pam mae ymchwil yn bwysig a sut y gall lunio ymarfer a gwella gofal.

# Pam yr ydym yn gwneud Ymchwil

**Dysguo'r Gwffennol er mwyn Siapio'r cynharaf a gofnodwyd oedd Dyfodol yn 1747 gan y llawfeddyg llynges o'r Alban James Lind - trobwynt yn hanes ymchwil feddygol.**

Ar y pryd, roedd morwyr yn aml yn dioddef o'r sgyrfi, cyflwr gwanychol y gwyddom bellach sy'n cael ei achosi gan ddiffyg fitamin C. Ond yn oes Lind, doedd dim dealltwriaeth o fitaminau na'r rôl y maent yn ei chwarae o ran iechyd.

Tra roedd ar fwrdd HMS Salisbury, arsylwodd Lind fod llawer o aelodau'r criw wedi datblygu symptomau'r sgyrfi ar ôl cyfnodau hir ar y môr. Roedd yn rhagdybio y gallai sylweddau asidig helpu i frwydro yn erbyn y salwch. I brofi hyn, cynhaliodd arbrawf rheoledig: rhannwyd deuddeg o forwyr a oedd â'r sgyrfi'n chwe phâr. Derbyniodd pob pâr atchwanegiad dietegol

gwahanol o ffwrddwr môr i seidr a ffrwythau sitrws.

Roedd y canlyniadau'n bendant. Dangosodd y ddau forwr a gafodd orennau a lemonau welliant hynod o fewn dim ond chwe diwrnod, gan wella digon i ofalu am y lleill. Yn ddiweddarach, dogfennodd Lind hyn yn ei gyhoeddiad 1753 *A Treatise of the Scurvy*, gan osod y sail ar gyfer meddygaeth seiliedig ar dystiolaeth (7).

Dangosodd yr arbrawf pwysig hwn pa mor werthfawr yw cymharu grwpiau ac ymchwiliad systematig - egwyddorion craidd ymchwil glinigol heddiw. Trwy ynysu newidynnau ac arsylwi canlyniadau, roedd Lind yn gallu dod i gasgliadau a arweiniodd at welliannau iechyd yn y byd go iawn.

**Mae ei waith yn ein hatgoffa pam ein bod yn gwneud ymchwil: i gwestiynu rhagdybiaethau, profi syniadau, ac yn y pen draw,**

**gwella bywydau.**

A  
TREATISE  
OF THE  
SCURVY.

# Strategaeth 10 mlynedd (2025-2035) "Ymchwil – gweithgaredd graidd" 2022-2027

**Mae ein strategaeth ymchwil, a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2022, yn bwriadu creu seilwaith ymchwil cynaliadwy, symlach, effeithlon ac arloesol.**

Mae'n amlinellu ein huchelgais i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i staff gymryd rhan mewn ymchwil ac i gleifion gymryd rhan mewn treialon clinigol neu gyfrannu at astudiaethau a fydd yn siapiro dyfodol gofal.

Thema graidd yn y strategaeth yw sicrhau bod seilwaith ymchwil Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn sefydlog ac yn gynaliadwy yn ariannol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn arallgyfeirio ein portffolio ariannu, gan gynnwys cymryd mwy o ran mewn ymchwil fasnachol ac ymgorffori ymchwil mewn ymarfer clinigol dydd i ddydd.

Rydym yn cryfhau sylfeini ein system ymchwil drwy ddatblygu timau ymchwil arbenigol, cefnogi staff i gynnwys ymchwil i gynlluniau swyddi, a buddsoddi mewn gwasanaethau hanfodol megis ystadau a gallu digidol.

Mae ein cyfeiriad strategol hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar gydweithio, er mwyn cefnogi diwylliant ymchwil ffyniannus a chymuned ymarfer gysylltiedig. Ein nod yw creu cyfleoedd ystyrlon i staff a chleifion, cefnogi ymdrechion Cymru gyfan i gyfeirio cleifion at y safleoedd ymchwil mwyaf priodol, a sicrhau ein bod yn ymatebol i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Ar yr un pryd, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydnabod ac adeiladu ar ein cryfderau wrth fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu

datblygu.



## Ein Amcanion

1. Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

2. Buddsoddiad mewn Staff a Seilwaith

3. Rhaglen Ymchwil Syml, Effeithlon ac Arloesol

# Strategaeth 10 mlynedd (2025-2035)

## Ffrydiau gwaith

**Er mwyn sicrhau aliniad ar draws prosiectau a chyda'n hamcanion strategol, rydym wedi sefydlu cyfres o ffrydiau gwaith.**

Cefnogir pob llif gwaith gan grŵp gorchwyl sydd ag aelodaeth hyblyg, ac sydd wedi'i gynllunio i fod yn gyfrifol am sawl prosiect ar wahanol gamau datblygu. Er bod rhai prosiectau yn amlwg yn wahanol, mae eraill yn croestori'n

naturiol mewn meysydd allweddol. Mae'r strwythur hwn yn caniatáu inni aros yn ystwyth tra'n cynnal ffocws clir ar gyflawni ein nodau hirdymor.


Mae'r ffrydiau gwaith yn bwydo i'r Grŵp Strategaeth Ymchwil Chwarterol, sydd yn ei dro yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil.

Diben y Grŵp Strategaeth Ymchwil Chwarterol yw goruchwyllo a rhoi arweiniad strategol. Mae'r grŵp yn

sicrhau bod yr holl brosiectau yn yn cyd-fynd bob amser â'n amcanion cyffredinol, gan ddefnyddio arbenigedd aelodau i gynnig cefnogaeth, mewnwelediadau ac atebion i unrhyw heriau sy'n dod i'r amlwg. Mae hefyd yn gwasanaethu fel gofod i fyfyrio, adolygu cynnydd, dathlu llwyddiannau, a nodi meysydd lle mae angen addasiadau.

Mae'r grŵp yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o gyflwyno, sefydlu camau y

gellir eu gweithredu, gosod dangosyddion perfformiad mewnol neu gerrig milltir ar gyfer prosiect, ac ystyried cyfleoedd sydd ar gael, cryfderau, adnoddau a chyfyngiadau o ran cyllideb. Mae'r dull hwn yn sicrhau cynnydd cyson drwy gydol cyfnod y strategaeth tra'n sicrhau y gellir addasu'n barhaus mewn ymateb i bolisïau a chanllawiau BIPAB a HCRW sy'n esblygu.




# Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi Llywodraethu Ymchwil Seilwaith

## Pwyllgor Ymchwil a Datblygu

Mae'r adran Ymchwil a Datblygu yn gyfrifol am gefnogi, rheoli ac arwain pob agwedd ar ymchwil ar draws y bwrdd iechyd ac mae'n cyflawni amrywiaeth o rolau a swyddogaethau.

Mae seilwaith llywodraethu cadarn yn allweddol o ran cyflwyno ymchwil yn ddiogel ac mae hefyd yn ffurfio un o bileri rhagoriaeth y "Fframwaith Ymchwil a Datblygu'r GIG" (3) Amlygodd adroddiad blynyddol y llynedd yr angen a'r bwriad i ailsefydlu'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a gafodd ei oedi yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn gyfle i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y pwyllgor a sicrhau bod strwythur llywodraethu cadarn yn ei le sy'n cynnwys mecanweithiau adrodd priodol.

Mae'r pwyllgor yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth lefel uchel er mwyn galluogi'r adran i gyflawni ei chyfrifoldebau llywodraethu a chefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth Ymchwil a Datblygu. Mae'r pwyllgor yn darparu llwybr clir o ran uwchyfeirio trwy'r pwyllgorau priodol i'r Bwrdd.



Yn mis Rhagfyr 2024 cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt yr Adran (AMD). Roedd yr aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwr Meddygol BIPAB ac Aelod Annibynnol dros Ymchwil.

Yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu mae'r Grŵp Rheoli Ansawdd Ymchwil a Datblygu (QMG) a'r Grŵp Rheoli Strategaeth

Ymchwil a Datblygu (SMG) ac mae Grŵp Rheoli Nawdd Ymchwil a Datblygu (SpMG) yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ar gynlluniau i gael cynrychiolaeth ar y grŵp o Sefydliadau Addysg Uwch fel rhan o'r gwaith o ddatblygu partneriaethau gwaith gyda chydweithwyr mewn prifysgolion.

Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu

Cefnogi

**Seilwaith Llywodraethu**

**Ymchwil:**



### Y Camau Nesaf:

#### **Rhaglen archwilio**

Mae archwilio mewn ymchwil yn hollbwysig o ran sicrhau ymddygiad moesegol, cywirdeb data, tryloywder ac atebolrwydd, cydymffurfiaeth â rheoliadau a diogelu unigolion. Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnal ac yn noddï ystod o astudiaethau ymchwil yn barhaus. Mae'r adran Ymchwil a Datblygu, a hwylir gan ei System Rheoli Ansawdd ei hun, yn asesu, ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r astudiaethau hyn ar ran y Bwrdd lechyd. Arweiniodd y pandemig a heriau eraill o fewn yr adran at atal

rhaglen archwilio a oedd yn gweithredu'n llawn. Nododd y Grŵp Rheoli Ansawdd (QMG) a'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu bod ailgychwyn y rhaglen archwilio yn flaenoriaeth allweddol i'r adran yn 2024. Fodd bynnag, mae atal y rhaglen archwilio wedi rhoi amser i'r adran ailwerthuso'r broses a gwneud gwelliannau sylweddol i'r rhaglen a fydd yn barod i'w rhoi ar waith yn 2025 yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor QMG ac Ymchwil a Datblygu.

#### **Grŵp Rheoli Nawdd (SpMG)**

Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am gynnal Astudiaethau a Noddir gan BIPAB. Mae'r grŵp yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a disgwylir iddo fod yn gwbl weithredol yn 2025.

#### **Proses Camau Cywiro ac Ataliol (CAPA)**

Defnyddir CAPAau yn helaeth mewn ymchwil gan Noddwyr a llu ymchwilwyr fel dull tryloyw o gywiro gwallau a gweithredu newidiadau i brosesau.

# Effaith Ymchwil Y Treial LOCI

**Treial clinigol yw Treial LOCI sy'n ymchwilio i opsiynau triniaeth ar gyfer unigolion sydd â Syndrom Ofariau Polysystig (PCOS) sy'n ceisio beichiogi. Mae PCOS yn gyflwr hormonaidd cyffredin a all effeithio ar ffrwythlondeb.**

Cafodd cyfranogwyr eu dewis ar hap i dderbyn naill ai Clomifene, sy'n ysgogi ofyliad, neu Letrozole, a ddefnyddir yn aml i ostwng lefelau estrogen. Nod y treial yw asesu pa un sydd fwyaf effeithiol ac sy'n cael ei oddef orau. Cawsant eu dewis ar hap hefyd i dderbyn naill ai Metformin, sy'n gwella sensitifrwydd inswlin, neu blasebo. Mae'r rhan hon o'r astudiaeth yn archwilio a all lleihau ymwrthedd inswlin wella siawns o feichiogrwydd mewn pobl sydd â PCOS (8).

Fel treial dall, nid oedd y cyfranogwyr yn gwybod pa feddyginiaethau a gawsant. Roedd hyn yn fodd o sicrhau cymhariaeth ddiduedd.

Mae'r gwaith recriwtio bellach wedi'i gwblhau, ac mae'r data yn cael ei ddadansoddi.

Roedd gan y cyfranogwyr gysylltiad rheolaidd â'r tîm ymchwil bydwreigiaeth ac roedd croeso iddynt gysylltu ar unrhyw adeg. Roedd hyn yn rhoi tawelwch meddwl i lawer ohonynt. Er gwaethaf diffyg fferyllfa treialon clinigol yn Ysbyty Nevill Hall, roedd cydweithio â thimau fferylliaeth, arbenigwyr ffrwythlondeb, a'r Cyfleuster Ymchwil Clinigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent wedi galluogi'r treial i agor yn lleol.

**Mae hyn yn cyd-fynd â'n strategaeth ymchwil, gan gynnig mynediad i dreialon clinigol dim ots ble mae rhywun yn byw.**

Er mai nod treialon clinigol yw cynhyrchu tystiolaeth sy'n llywio gofal yn y dyfodol, gall profiadau'r cyfranogwyr fod yn hynod ystyrlon hefyd.

**Myfyriodd** Rachel Doyle, a gymerodd ran yn y Treial LOCI, ar y gefnogaeth a gafodd:

*“Roedden nhw yno wrth ein hochor”. Roedden nhw bob amser yn codi'r ffôn, yn gweld sut oeddwn i ac yn siarad â mi am unrhyw beth yr oeddwn yn poeni amdano. Rwy'n meddwl bod y cymorth un i un a gefais ganddynt yn amhrisiadwy. Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr yr holl gefnogaeth a'r help a'r cyswllt cyson i weld sut oeddwn i. Wyddoch chi, fe wnaeth wir olygu llawer trwy gydol y daith honno, felly diolch.”*



Er nad yw canlyniadau'r treial yn hysbys eto, ac nad oedd y cyfranogwyr yn ymwybodol o ba driniaeth a gawsant, mae geiriau Rachel yn tynnu sylw at fath gwahanol o effaith.

**Dyma beth mae cyflwyno ymchwil sy'n rhoi pobl yn gyntaf yn ei olygu - gan wneud i gyfranogwyr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn wybodus, a'u cefnogi trwy rai o heriau mwyaf personol bywyd.**

# Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi Cyflawni Ymchwil

## Arweinydd Tîm Cyflawni Ymchwil

Mae'r Tîm Cyflawni Ymchwil Glinigol yn parhau i ddatblygu sgiliau arbenigol i gefnogi treialon ac astudiaethau o fewn y Cyfleuster Ymchwil Clinigol yn B5N yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac mewn safleoedd eraill ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys integreiddio â llwybrau cleifion sy'n weithredol ar draws sawl maes afiechyd.

Prif ffocws eleni, ar draws yr holl ffrydiau gwaith, oedd codi ymwybyddiaeth o weithgarwch ymchwil. Cefnogwyd hyn trwy gyflwyno gwisg cyflawni ymchwil HCRW sy'n hawdd i'w hadnabod, ein brand pwrpasol sy'n seiliedig ar waith celf a gomisiynwyd gan yr adran cyfleusterau, a chyflwyno logo'r Hyrwyddwyr Ymchwil.

Mae'r dynodwyr gweledol hyn wedi profi'n werthfawr yn ystod digwyddiadau ymgysylltu a chyfarfodydd gyda grwpiau staff ac adrannau eraill. Nid oedd llawer o'n cydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol cyn hyn o fodolaeth staff ymchwil nac yn sylweddoli faint o waith ymchwil sy'n digwydd. Eleni, rydym yn teimlo ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol. Rydym wedi cysylltu â mwy o bobl nag erioed, wedi cysylltu ag adrannau y mae ymchwil yn rhywbeth newydd iddynt, ac rydym wedi ymgysylltu â staff nad oeddent wedi ystyried cymryd rhan mewn ymchwil o'r blaen.


**Mae'r gweledd hwn a'r ymgysylltiad parhaus yn galluogi diwylliant sy'n gwybod mwy am ymchwil ar draws gwasanaethau clinigol.**

## Rhagoriaeth Gweithredol

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ragoriaeth weithredol drwy gwrdd â metrigau perfformiad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'u cynnal yn gyson. Mae'r ymrwymiad hwn yn dechrau yn ystod camau cynharaf astudiaeth, sef cwmpasu a dichonoldeb, ac mae'n parhau hyd nes bydd holl weithgareddau'r astudiaeth wedi'u cwblhau. Cynhelir asesiad dichonoldeb cymhlethdod a risg ar bob astudiaeth gan ein Arweinwyr Tîm er mwyn penderfynu a ellir ei chyflwyno o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys dyrannu'r lefel briodol o gymorth, ymgorffori astudiaethau o fewn llwybrau gofal safonol lle bo hynny'n bosibl, a sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn bod yn barod i astudio.

Mae ein cydweithrediad agos rhwng timau cyflawni ymchwil a llywodraethu yn gwella'r broses hon. Mae agosrwydd adrannau a chyd-ethos cydweithredu yn cyfrannu at lifoedd gwaith symlach a threfn gadarn o ran sefydlu astudiaethau. Mae'r dull integredig hwn yn ein gwahaniaethu oddi wrth lawer o safleoedd ymchwil eraill ac mae'n sail i'n llwyddiant o ran cychwyn astudiaethau yn brydlon, darparu allbynnau o ansawdd uchel, a chyflawni targedau recriwtio o fewn llinellau amser treialon.

**Mae ein metrigau perfformiad cryf a'n henw da am recriwtio dibynadwy yn allweddol wrth sicrhau treialon yn y dyfodol.**



# Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu

## Cefnogi

# Cyflawni Ymchwil

## Adeiladu Capasiti Ymchwil

Er na ellir cynnal pob ymchwil o fewn y Bwrdd Iechyd, rydym yn parhau i ddewis treialon ac astudiaethau sy'n cyd-fynd â'n gallu, gyda'n llwybrau cleifion, a gyda'n meysydd arbenigedd. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu ein cryfderau ac archwilio cyfleoedd newydd.

Rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant cynhwysol o ran ymgysylltu ac ymchwil. Mae ymgysylltiad parhaus ar draws pob disgyblaeth broffesiynol yn galluogi ystod ehangach o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys nyrsys, gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol i iechyd, fferyllwyr ac eraill, i gyfrannu at, ac arwain, gweithgaredd ymchwil.

Yn gynyddol, mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn ymgymryd â rolau megis Prif Ymchwilydd. Mae enghreifftiau o'r rhan ehangach yr ydym wedi'i chwarae yn yn cynnwys ein cyfraniad i'r ymgynghoriad ar gyfer y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwyddor Gofal Iechyd yn GIG Cymru, ac alinio ag amcanion a rennir Strategaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd.



Enillodd tîm Radioleg Ymyrrol Gwent wobwr "Partneriaeth HCRW gyda Diwydiant" yng Ngwobrau Arloesedd Medi Cymru am astudiaeth R&D BIPAB a noddir ar Emboleiddio Rhydweili'r Pen-glin.

Perfformiad cenedlaethol amlwg parhaus, gan gynnwys RDCBio — y 3ydd recriwtiwr uchaf yn y DU a Threial Mithridate — recriwtiwr uchaf allan o 61 o safleoedd y DU

Mae meysydd ffocws newydd ar gyfer ymchwil anfasnachol yn cynnwys canserau'r croen, sgrinio cancer pancreatig a gweithlu.

Llwyddiant mewn astudiaethau canfod yn gynnar, gan nodi biomarcwyr a all drawsnewid llwybrau triniaeth

Mae meysydd ffocws newydd ar gyfer ymchwil fasnachol yn cynnwys dementia a stentio cardioleg yn y cyfnod astudiaeth ôl-farchnata.

Prif Ymchwilwyr newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn feddygon.

Llwyddiant masnachol mewn treial haematoleg — recriwtio 10% o darged byd-eang a dewiswyd bellach ar gyfer y 2 astudiaethau dilynol nesaf

Llwyddiant amlwg mewn Astudiaethau ôl-farchnata Masnachol Rheumatoleg. Cymeradwywyd mewn cyfarfod byd-eang am ein llwyddiant o ran recriwtio i Astudiaeth Janssen-Cilag.

# Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi Ymgorffori i mewn i Ddarparu Gweithredol y GIG

## Gweithgaredd Craidd

O'r cychwyn cyntaf o ddatblygu ein strategaeth a thrwy ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, sylweddolom na allem dyfu ymchwil mewn modd cynaliadwy o fewn y Bwrdd Iechyd trwy ddibynnu ar ein gweithlu cyflenwi ymchwil glinigol cyfyngedig yn unig. O ystyried y pwysau ariannol parhaus a'r cyfyngiadau o ran ehangu capasiti, rydym wedi mabwysiadu model sy'n canolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth a gallu o ran ymchwil o fewn adrannau gweithredol y GIG. Mae'r dull hwn yn ein galluogi i ymgorffori ymchwil o fewn llwybrau gofal clinigol arferol.

Mae staff cyflawni ymchwil yn parhau i ddarparu cymorth hanfodol, tra bod ein tîm llywodraethu yn sicrhau bod ansawdd a chydymffurfriad rheoleiddiol yn cael eu cynnal.


Credwn y bydd y model integredig hwn yn ein helpu i wneud y mwyaf o gyfleoedd ymchwil er budd cleifion a staff, gan leoli ymchwil fel elfen graidd o wasanaethau'r GIG ar draws pob maes.

Ni fydd y model hwn yn addas ar gyfer pob astudiaeth. Felly, mae asesiadau cynnar o gymhlethdod astudiaeth, dichonoldeb a gofynion o ran cymorth yn parhau i fod yn hanfodol cyn agor astudiaeth. Mae astudiaethau mwy cymhleth neu sydd â risg uwch yn gysylltiedig â hwy sy'n gofyn am arbenigedd arbenigol yn parhau i gael eu cyflwyno drwy ein cyfleuster ymchwil pwrpasol, gyda chefnogaeth y tîm cyflawni ymchwil a'r Prif Ymchwilwyr.

## Cymorth Ymchwil Arbenigol

Mae'r dull hwn yn cael ei gryfhau gan aelod profiadol iawn o'r tîm cyflawni ymchwil sy'n arbenigo mewn astudiaethau ymchwil sydd wedi'u hymgorffori. Gan ddefnyddio eu harbenigedd, maent yn cefnogi timau gweithredol yn ystod y cyfnod sefydlu'r astudiaeth drwy ddarparu pecynnau cymorth cynhwysfawr, cydlynu sesiynau addysg wedi'u teilwra mewn cydweithrediad â'n Nyrs Ymchwil Arweiniol dros Addysg, a chynnig arweiniad parhaus drwy gydol cylch bywyd yr astudiaeth. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda phrosesau megis gweithredu diwygiadau a chynnal a chadw ffeiliau safle. Mae monitro perfformiad recriwtio misol yn rheolaidd yn ein galluogi adnabod heriau yn gynnar, ac mae hyn yn sicrhau bod ymyrraeth amserol yn digwydd, gan gynnwys cymorth ychwanegol gan staff cyflawni ymchwil os oes angen.

2024 Cym orth Astudio  
Newydd  
Cyflenwi Ymchwil yn erbyn  
Ymgorffori



■ Cyflenwi ■ Ymgorffori

Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu  
Cefnogi

# Ymgorffori i mewn i Ddarparu Gweithredol y GIG

Fel rhan o'r Fframwaith Ymchwil: Pam fod Ymchwil yn Bwysig(3), mae HCRW wedi lansio'r rhaglen Ymgorffori Ymchwil yn y GIG er mwyn cefnogi'r gyd-uchelgais hon, gan gydnabod yr hyn sydd wedi'i ddysgu trwy ymgysylltu yn genedlaethol, sef bod ymgorffori yn parhau i fod yn her ar draws yr holl Fyrddau Iechyd. Rydym wedi croesawu'r fenter hon ac rydym yn rhan o'r gweithgor cenedlaethol a phrosiectau cysylltiedig. Mae'r cyfranogiad hwn wedi ein galluogi i gyfrannu'n uniongyrchol at drafodaethau cenedlaethol, llywio ein cynllunio strategol mewnol, llunio nodau y gellir eu gweithredu, a rhannu ein llwyddiannau a'n heriau gyda'r gymuned ehangach.

**Ni ellir ymgorffori ymchwil mewn ofal arferol heb wynebu heriau, yn enwedig yng nghyd-destun capasiti'r GIG wrth symud ymlaen a phwysau o ran llwyth gwaith. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddysgu a gwerthuso ein dulliau yn barhaus. Rydym yn cael ein hannog gan frwdfrydedd ac ymrwymiad unigolion ar draws y Bwrdd Iechyd sy'n mynd ati i hyrwyddo ymchwil ac yn eirioli i gleifion gael cynnig cyfleoedd ymchwil.**



# Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi Cyflawni Ymchwil

## Y Camau Nesaf:

### Mireinio Dosbarthiad Treialon Clinigol yn ôl Cymhlethdod a Risg

Byddwn yn parhau i fireinio'r ffordd y caiff treialon clinigol eu dosbarthu yn seiliedig ar eu cymhlethdod a'u risg. Mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliad manylach o bob cam o gylch bywyd treial a'r math o gymorth sydd ei angen yn ystod bob cam. Drwy asesu'r anghenion hyn yn ystod cyfnodau priodol, gallwn sicrhau bod treialon yn rhedeg yn esmwyth, bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithiol drwyddi draw, a bod ansawdd uchel y gwaith ymchwil yn cael ei gynnal. Mae cynnwys y tîm ymchwil yn gynnar a chyfathrebu'n eglur ynghylch heriau posibl, a'r rhesymau pam, efallai, na fydd rhai astudiaethau yn ymarferol, yn hollbwysig er mwyn symleiddio prosesau a diogelu uniondeb treialon.

### Gweithredu Florence

Rydym yn falch o gadarnhau bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi cymeradwyo defnyddio arian VPAG i weithredu *Florence*, system rheoli ffeiliau safle digidol. Bydd y feddalwedd hon yn cefnogi storio ac archifo ffeiliau safle ymchwil, gan sicrhau cydymffurfiaeth â safonau rheoleiddio. Disgwylir i'r gwaith o gyflwyno'r system ddechrau yn 2025 a bydd y gwaith yn cynnwys rhaglen ddwys o gyflwyno a hyfforddi staff. Rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effaith dros dro ar gapasiti staff, ond bydd yn y pen draw yn sicrhau effeithlonrwydd hirdymor sylweddol a gwelliannau o ran llywodraethu ymchwil.

### Datblygu Modelau Ymgorffori

Mae ein gwaith hyd yma wedi dangos bod cymorth ymchwil sydd wedi'i wreiddio'n lleol fel arfer yn syrthio i ddau gategori:

- Timau sydd angen ychydig iawn o gymorth arweiniol
- Timau sydd angen cymorth o bryd i'w gilydd yn ystod gwahanol gamau yr astudiaeth

Byddwn yn parhau i fireinio'r ffordd y caiff yr anghenion hyn eu nodi a sut mae cymorth priodol yn cael ei ddyrannu, gan sicrhau y gellir cynllunio adnoddau yn well ac integreiddio ymchwil mewn modd mwy cyson i ofal arferol.



### Gwella Amseroedd Sefydlu Astudiaethau

Er bod amseroedd sefydlu ein hastudiaethau ar hyn o bryd yn cyfateb â chyfartaledd Cymru gyfan, rydym wedi ymrwymo i'w gwella ymhellach. Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau'n rheolaidd ac yn mynd i'r afael â phroblemau sy'n codi dro ar ôl tro neu rwystrau logistaidd sy'n gohirio actifadu'r astudiaeth.

### Adeiladu arbenigedd Ymchwil Masnachol

Mae treialon masnachol yn gofyn am sgiliau penodol a lefel uwch o oruchwyliaeth. I Brif Ymchwilwyr profiadol sydd wedi gweithio'n bennaf ar astudiaethau anfasnachol, gall dwyster y gofynion hyn ddod fel syndod. Byddwn yn parhau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag ymchwil fasnachol, gan ddefnyddio arbenigedd ein clinigwyr sydd â phrofiad yn y maes hwn i gefnogi hyfforddiant a datblygu.

# Perfformiad Ymchwil BIPAB

## Metrics 2024

Ein prif ddangosydd perfformiad yw cyfranogwyr sy'n cael eu recriwtio i astudiaethau ymchwil yn unol â thargedau a llinellau amser y cytunwyd arnynt (recriwtio i amser a tharged). Mae'r metrig hwn yn hollbwysig, oherwydd gallai tanberfformio gael effaith ar ddyraniadau cyllid yn y dyfodol o bosibl.

Metrig Dangosydd Allweddol	Masnachol	Anfasnachol
Canran yr Astudiaethau Caeedig sy'n Recriwtio i Amser a Tharged	BIPAB 75%	BIPAB 86%
	Cymru 62%	Cymru 77%

**38** 

Astudiaethau newydd wedi'u hagor yn 2024

**103** 

Cyfanswm yr astudiaethau *ar agor* yn 2024

**78** 

Cyfanswm yr astudiaethau *yn y camau dilynol* yn ystod 2024

**1639** 

Cyfanswm y cyfranogwyr a recriwtiwyd ym mlwyddyn ariannol 2023/2024

Yng ngoleuni blaenoriaethau cenedlaethol i gynyddu gweithgarwch treialon masnachol, mae pwyslais cynyddol ar ein perfformiad o ran amseroedd sefydlu astudiaethau. Mae sicrhau bod astudiaethau'n cael eu cychwyn yn brydlon yn hanfodol o ran parhau i fod yn gystadleuol ac yn ddeniadol fel safle ymchwil, yn lleol ac o fewn Cymru

	Masnachol	Anfasnachol
Diwrnodau canolrif o'r dyddiad y dewiswyd y safle hyd at recriwtio cyfranogwr	BIPAB 115 Cymru 142	BIPAB 113 Cymru 122

# Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

## Cyllid Ymchwil

Mae ymchwil yn y GIG yn cael ei ariannu drwy amrywiaeth o ffynonellau. Un o'r prif arianwyr yw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) — sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru (LIC) i gydlynu a hwyluso ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru a darparu adnoddau i ysgogi a chefnogi ymchwil.

### Yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025, derbyniodd Ymchwil a Datblygu: -

- £1,803,735 mewn cyllid gan HCRW i ariannu'r gwaith o ddarparu ymchwil yn BIPAB sy'n cynnwys tâl a di-dâl.
- Ariannwyd swyddi ychwanegol drwy gapasiti ychwanegol Ymchwil a Datblygu sy'n dod o incwm ymchwil masnachol - cyfanswm o £ 417,477.
- Roedd cyfanswm y cyllid gan Gyfarwyddiaethau Haemotoleg a Chardioleg yn £90,204.
- Cyllid grant ar gyfer swyddi ymchwil o £29,994.

### Cymorth Ariannol Adrannol


Mae'r Strategaeth Ymchwil a Datblygu yn cydnabod yr angen i fanteisio ar ffrydiau ariannu allanol yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol bresennol er mwyn ehangu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn wedi'i gydnabyddir fel rhwystr o ran cyflawni'r Strategaeth Ymchwil a Datblygu ac felly cydnabuwyd y byddai'r adran yn elwa o gael staff cymorth cyllid llawn amser. Mae cynlluniau ar y gweill i wneud cais am gyllid VPAG (cynllun gwirfoddol ar gyfer prisio

meddyginiaethau brand, mynediad a thwf) ar gyfer Rheolwr Busnes a Chyllid.

Byddai'r swydd hon yn sicrhau ein bod yn glynu at Bolisi Cyllid Cymru Gyfan 2018 (WHC005) (9), fframwaith ACoRd (Priodoli costau ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol) a Chyfarwyddiadau Sefydlog Ariannol y Bwrdd Iechyd. Byddai deiliad y swydd yn sicrhau bod cymaint o incwm â phosibl yn cael ei gynhyrchu, ei fod yn cael ei reoli a'i ddsbarthu yn unol â'r polisiau a'r fframweithiau uchod.

Yn ychwanegol at gyllid ar gyfer swyddi ymchwil mae Costau Ychwanegol Triniaethau. Rhagwelir y bydd hyn tua £41,071 (wedi'u cadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol) i ariannu costau triniaeth o fewn astudiaethau ymchwil nad ydynt yn ymwneud â safon gofal. Daw'r cyllid hwn drwy HCRW gan LIC ac mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod holl gostau cyflwyno ymchwil yn cael eu talu.

### Ffynonellau Cyllido Sta ff 2024/2025



■ HCRW  
■ Cyfarwyddiaethau ABUHB  
■ Cyllid Grant  
■ Adeiladu Capasiti Ymchwil a Datblygu



# Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

## Addysg



### Ymgorffori Ymwybyddiaeth o Ymchwil mewn prosesau Anwytho

Ym maes bydwreigiaeth, rydym wedi cymryd camau rhagweithiol i ymgorffori ymchwil yn natblygiad proffesiynol rheolaidd a diwylliant y tîm. Eleni, llwyddwyd i sicrhau sesiwn bwrpasol ar ymchwil o fewn y rhaglen anwytho tiwtoriaeth ar gyfer bydwagedd sydd newydd gymhwyso. At hyn, mae adran ar ymchwil bellach wedi'i chynnwys yn y llawlyfr anwytho ar gyfer pob bydwaig Band 6 newydd sy'n ymuno â'r Bwrdd Iechyd.

Er mwyn cefnogi ymgysylltiad parhaus ymhellach, cynhelir Fforwm Gwella Ansawdd (QI) ac Ymchwil chwarterol trwy Microsoft Teams. Mae'r fforwm ar agor i'r tîm bydwreigiaeth cyfan, gellir dewis mynychu neu peidio, ac mae'n creu lle ar gyfer trafodaeth agored a chyd-ddysgu.

Er mwyn cefnogi hyn, datblygwyd Padlet ymchwil bydwreigiaeth er mwyn darparu gwybodaeth hygyrch a darparu diweddariadau rheolaidd am y tîm ymchwil, astudiaethau presennol, cyfleoedd hyfforddi, ac adnoddau cyffredinol.

Mae'r mentrau hyn wedi chwarae rhan bwysig o ran codi proffil ymchwil ar draws y gweithlu bydwreigiaeth ehangach. Wrth edrych ymlaen, ein nod yw cyflwyno sesiwn ymchwil bwrpasol fel rhan o'r diwrnodau astudio gorfodol a fynychir gan yr holl fydwagedd, gweithwyr cymorth gofal mamolaeth, a nyrsys newydd-anedig.

**Ein nod yw ailadrodd y model hwn o ymgysylltu ar draws adrannau eraill, gan sicrhau bod ymchwil yn dod yn rhan weladwy, gwerthfawr ac integredig o anwytho proffesiynol ac ymarfer parhaus ledled y Bwrdd Iechyd.**

# Gweithlu Ymchwil Cynaliadwy sy'n cael eu Cefnogi

## Addysg

### Y Camau Nesaf:

#### Cynllun Prif Ymchwilydd Cyswllt (API)

Er ein bod yn parhau i gefnogi a hyrwyddo Cynllun API NIHR (11), gostyngodd nifer y ceisiadau o 15 yn 2023 i 11 yn 2024. At hyn, rydym yn gweld cyfradd y bobl sy'n tynnu allan o 36%. Ar hyn o bryd rydym yn meincnodi yn erbyn safleoedd eraill er mwyn deall sut mae hyn yn cymharu'n genedlaethol ac i archwilio sut y gallwn gefnogi cyfranogwyr yn well trwy gydol y rhaglen.

Er mwyn gwella'r nifer sy'n ymuno ac yn aros, rydym wedi cynllunio sesiynau Dysgu Amser Cinio i godi ymwybyddiaeth o fanteision ac ymarferoldeb y cynllun. Rydym hefyd yn bwriadu rhannu arolwg er mwyn casglu adborth gan gyfranogwyr a deall sut y gallwn gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ymhellach ar draws yr holl grwpiau staff er mwyn cwblhau'r cynllun yn llwyddiannus.

#### Pileri Ymarfer

Wrth i ymchwil gael mwy a mwy o gydnabyddiaeth fel piler allweddol ar draws sawl fframwaith broffesiynol, rydym yn datblygu hwb adnoddau ymchwil pwrpasol ar ein mewnrwyd. Bydd yr hwb hwn yn rhoi arweiniad ymarferol ac yn cynnig offer a fydd yn helpu staff i gofnodi tystiolaeth ac ymgysylltu â'r piler ymchwil yn eu harfer eu hunain.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â phresenoldeb rheolaidd gan uwch aelod o'r tîm ymchwil yn y Grŵp Strategol Ymarfer Clinigol Datblygedig, Uwch ac Ymgynghorol. Bydd yr ymgysylltiad parhaus hwn yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau y mae staff yn eu hwynebu a theilwra cymorth yn unol â hynny

#### Cylchlythyr Ymchwil

Gan fod sawl adran wedi dangos diddordeb, rydym yn datblygu Cylchlythyr Ymchwil i wella cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar edrych yn fanylach ar y fformat a'r dulliau dosbarthu mwyaf effeithiol, ynghyd â nodi'r mathau o ddiweddariadau a chynnwys a fyddai'n fwyaf gwerthfawr i wahanol gynulleidfaoedd clinigol a phroffesiynol.

#### Rhaglen Taith Rhagoriaeth

Rydym yn gyffrous ein bod yn ymgorffori ymwybyddiaeth ymchwil yn y rhaglen graidd Taith Rhagoriaeth (JOE), mewn cydweithrediad ag arweinwyr nyrsio yn y sefydliad. Nod y fenter hon yw tynnu sylw at y rôl hanfodol y gall nyrsys ei chwarae mewn ymchwil a'u grymuso i edrych ar ymchwil fel rhan annatod o'u hunaniaeth broffesiynol.

# Dysgu Amser Cinio

Dan arweiniad ein Nyrs Arweiniol Addysg Ymchwil, mae sesiynau Dysgu Amser Cinio yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn ac maent yn awr benodol sy'n canolbwyntio ar bynciau sy'n gysylltiedig ag ymchwil ar gyfer staff o bob cwr o'r Bwrdd Iechyd. Mae sesiynau'n cyfuno addysgu hamddenol, hygyrch â thrafodaeth ryngweithiol i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus

Fe'u cynhelir rhwng 12:30 a 13:30, mae pob sesiwn yn dechrau gyda segment addysgu, gan ganiatáu i'r mynychwyr fwyta cinio wrth ddysgu, ac yna adran holi ac ateb i annog trafodaeth. Caiff sesiynau eu cofnodi er mwyn rhoi mynediad hyblyg i staff pan maent eisiau gwranddo, ac mae darparu'r sesiynau'n hybrid hefyd ar gael lle bo hynny'n bosibl drwy ystafell gynadledda'r adran Ymchwil.

## Y pynciau a drafodwyd yn 2024 oedd:

- Cydbwysedd a Rhagfarn
- Dichonoldeb mewn Ymchwil
- Gwersi o Hanes: Astudiaeth Tuskegee
- Adroddiad O'Shaughnessy
- Diogelwch Seicolegol mewn Timau Ymchwil
- Datganiad Helsinki: Diwygiadau Diweddaraf

## Meysydd posibl ar gyfer datblygu


- Ychwanegu elfennau rhyngweithiol fel cwisiau
- Ymgorffori mwy o gynnwys amlgyfrwng, fel lluniau a fideos
- Ehangu cyfranogiad siaradwyr gwadd
- Monitro dyddiau a thueddiadau ymgysylltu a ffefrir

## Adborth ac Effaith

Derbyniodd sesiynau adborth cadarnhaol, a ddisgrifir fel "gwyb", "defnyddiol", "addysgiadol", ac "ysgogi meddwl". Nododd un mynychwr: "Yn amlwg, gallwch weld angerdd y staff mewn ymchwil." Gwerthfawrogwyd recordiadau, a mynegodd y rheiny a oedd yn gwylio ddiddordeb mewn ail-wyllo'r deunydd dros amser.

## Presenoldeb Dysgu Amser Cinio 2024

(ni chynhaliwyd sesiynau yn ystod mis Mehefin, mis Gorffennaf na mis Rhagfyr)



## Edrych Ymlaen

Mae gennym siaradwyr gwadd eisoes ar gyfer 2025, a bydd pynciau'r dyfodol yn archwilio:

- Anghydraddoldebau iechyd mewn ymchwil,
- Rheoliadau GCP a threialon clinigol newydd
- Astudio gweithdrefnau cau allan,
- Gwahaniaethu ymchwil oddi wrth arloesi.

**Byddwn yn parhau i fireinio'r fformat er mwyn cynyddu'r ymgysylltiad a sicrhau effaith barhaus ar draws y sefydliad.**

# Buddsoddiad mewn staff a Seilwaith Cyfleoedd i'r Gweithlu



## Amser Ymchwil Gwarchoddedig

**Mae sicrhau bod unigolion yn cael yr amser priodol i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil yn her.**

Mae llawer o weithwyr yn frwdfrydig ynghylch ymchwil fel syniad ac yn dymuno cymryd mwy o ran, ond mae'r gofynion sy'n deillio o ddarparu gofal clinigol rheng flaen yn aml yn gwneud hyn yn anodd neu'n amhosibl.

Ers dechrau ei rôl ym mis Mai 2024, mae'r AMD newydd wedi cwrdd â llawer o'r ymgynghorwyr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn y Bwrdd Iechyd gan nodi bod llawer yn cael trafferth sicrhau amser priodol ar gyfer ymchwil yn eu cynlluniau swydd. O ganlyniad, rydym wedi gweithio gyda Staff Meddygol i ddrafftio canllawiau clir a chadarn ynghylch amser Cefnogi Gweithgareddau Proffesiynol (SPA) ac ymchwil.

Y bwriad yw cefnogi ymgynghorwyr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil yn ystod eu cyfarfodydd cynllunio swyddi, gan alluogi'r rheiny sy'n ymwneud ag ymchwil i gael amser SPA priodol er mwyn cefnogi eu gweithgareddau. Er ein bod yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r amser SPA hwn yn ymwneud â recriwtio cleifion ar gyfer treialon ymchwil, mae cyfleoedd hefyd i ddefnyddio'r amser i ddatblygu ceisiadau am gyllid cystadleuol, boed ar lefel bersonol neu lefel sefydliadol.

Er mai dim ond i feddygol y mae hyn yn berthnasol, rydym yn parhau i fod yr un mor ymrwymedig i gefnogi Prif Ymchwilwyr ac ymchwilwyr nad ydynt yn staff meddygol. Gan adeiladu ar lwyddiant ein gwaith SPA, rydym yn anelu at ymestyn mentrau tebyg ar draws proffesiynau clinigol eraill.


# Buddsoddiad mewn staff a Seilwaith Cyfleoedd i'r Gweithlu

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ymchwil.

mewn cydweithrediad agos â'r Tîm Nyrsio Corfforaethol. Mae alinio eu strategaeth â'n strategaeth ni wedi ein galluogi i ddatblygu cyd-amcanion, sy'n hanfodol i feithrin staff nyrsio fel arweinwyr ymchwil yn y dyfodol. Nod y bartneriaeth hon yw grymuso nyrsys i ymgorffori ymchwil o fewn ymarfer dydd i ddydd, gan gynnwys sicrhau amser penodol i gymryd rhan mewn ymchwil ac arwain

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym hefyd yn eirioli dros gynnwys mwy o amser ymchwil gwarchoddedig o fewn cynlluniau swydd ac edrych am gyfleoedd ar gyfer amser ymchwil wedi'i ariannu. Mae'r camau hyn yn hanfodol er mwyn galluogi staff i gymryd rhan ystyrlon mewn ymchwil a chyfrannu at ei dwf parhaus ar draws y sefydliad.

**Cefndir Proffesiynol y PIs  
ar gyfer Astudiaethau a agorwyd yn 2024**



Rydym eisoes yn gweld cynnydd calonogol. Mae gennym staff sy'n cymryd rhan mewn ymchwil mewn proffesiynau eraill megis ffisiotherapi a phodiateg, ac rydym yn gobeithio ailadrodd y llwyddiant hwn yn ehangach.

Ein nod yw adeiladu gweithlu amlddisgyblaethol lle mae arweinwyr ymchwil sy'n dod i'r amlwg ar draws pob proffesiwn yn cael eu cefnogi gydag amser gwarchoddedig a chyfleoedd datblygu strwythuredig.

# Buddsoddiad mewn staff a Seilwaith Cyfleoedd i'r Gweithlu Partneriaethau a Chydweithio

## Cydweithrediad NIHR HRDC Torfaen

Yn 2023, rhoddodd Awdurdod Lleol Torfaen, mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a thîm Iechyd Cyhoeddus ac Ymchwil ABUHB fel cydweithredwyr, gais i NIHR am grant gwerth £5m i sefydlu Canolfan Ymchwil Penderfynyddion Iechyd (HDRC).

Fel Rhanbarth Marmot, roedd gan ALI Torfaen uchelgais hirdymor i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a'r anhegwch yn eu cymunedau. Wrth sefydlu HDRC, dymunodd Torfaen ymgorffori ymchwil yng ngwaith eu Cyngor, yn debyg iawn i'r ffordd y mae BIPAB yn symud tuag at ymgorffori ymchwil yn ei waith dydd i ddydd.

Roedd y cais hwn yn llwyddiannus, a rhoddwyd y grant. Cychwynwyd y gwaith o'i gyflwyno ym mis Ionawr 2024, gyda chyllid NIHR ychwanegol ar gyfer 1 flwyddyn ar gyfer datblygu seilwaith a strategaeth.

Mae staff Ymchwil a Datblygu BIPAB yn eistedd ar ei bwyllgorau, yn darparu arweiniad a chymorth, ac ynghyd â staff Iechyd Cyhoeddus BIPAB yn cael eu hariannu i gyflawni sawl swyddogaeth. Mae ALI Torfaen wedi datblygu eu strategaeth ymchwil yn seiliedig ar ymgysylltu â'i ddinasyddion. Lle bo'n briodol bydd BIPAB yn bartneriaid ac yn gydweithwyr o ran ceisiadau grant HDRC yn y dyfodol ac o

ran darparu ymchwil yn y

Mae cydweithio ar y grant hwn yn dyst i'r berthynas hirsefydlog a pharhaus rhwng yr USW a Iechyd Cyhoeddus BIPAB a'r berthynas ymchwil newydd sy'n datblygu ar hyn o bryd gydag Awdurdod Lleol Torfaen. Mae'r ddau yn cyd-fynd â deddfwriaeth LIC (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), Strategaeth Ymchwil a Datblygu BIPAB (Ymchwil a Datblygu - Gweithgaredd Craidd), cynlluniau HCRW (Mae ymchwil yn bwysig: ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru).

**NIHR** | Cydweithrediad Ymchwil  
ar Benderfynyddion Iechyd  
Torfaen  
Health Determinants  
Research Collaboration  
Torfaen



**“Roedd sesiynau gyda thîm Ymchwil BIPAB yn nyddiau cynnar ffurfio'r HDRC wedi ein helpu i weld sut roedd meysydd eraill yn y bartneriaeth yn agosáu at recriwtio hyrwyddwyr ymchwil, y rhwystrau a wynebwyd, a'r ymdrechion oedd yn sail i lwyddiant. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r tîm ar brosiectau sy'n gorgyffwrdd yn y dyfodol”**

# Buddsoddiad mewn staff a Seilwaith Cyfleoedd i'r Gweithlu

## Y Camau Nesaf:

### Cymrawd Ymchwil Clinigol

Rydym wedi sylweddoli, ochr yn ochr â datblygu arbenigedd ymchwil mewn meysydd cryfder dan arweiniad PIs sefydledig, bod her o ran capasiti yn dod i'r amlwg. Wrth i'r clinigwyr hyn ennill enw da a dod yn bartneriaid a ffefrir ar gyfer cwmnïau masnachol, maent yn cyrraedd pwynt lle na allant ymgymryd â threialon ychwanegol mwyach oherwydd cyfyngiadau amser a llwyth gwaith.

Ar hyn o bryd, rydym yn ddibynnol ar PIs unigol i ymgymryd â'r holl ddyletswyddau meddygol sy'n gysylltiedig â chleifion a recriwtiwyd i dreialon clinigol. Mae hyn yn arbennig o heriol mewn astudiaethau mwy cymhleth neu'r rheiny sy'n ymwneud â meddyginiaethau archwiliadol, lle mae angen amser clinigwyr penodol o fewn y Cyfleuster Ymchwil Clinigol.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, aethom ati i gwmpasu'r potensial ar gyfer swyddi Cymrawd Ymchwil o fewn y Bwrdd Iechyd, gan archwilio a ariennir ar y cyd â Chyfarwyddiaethau leihau'r broblem.

Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Strategaeth, ymgynghorwyr sy'n cymryd rhan mewn ymchwil, a Rheolwyr Cyfarwyddiaethau, cytunwyd mai'r ateb mwyaf effeithiol yn ystod y cyfnod hwn o dwf fyddai sefydlu swydd Cymrawd Ymchwil Clinigol wedi'i leoli o fewn y Cyfleuster Ymchwil Clinigol. Byddai'r rôl hon yn cefnogi'r holl Gyfarwyddiaethau a chlinigwyr sy'n ceisio agor treialon clinigol.

Er bod gan Fyrddau Iechyd eraill swyddi tebyg, dyma'r swydd gyntaf o'r fath ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd y Cymrawd Ymchwil Clinigol yn cefnogi PIs wrth iddynt gyflawni cyfrifoldebau meddygol a byddant yn cyfrannu at sicrhau bod treialon clinigol yn cael eu rhedeg yn esmwyth. Bydd y capasiti ychwanegol hwn yn ein galluogi i gynnal mwy o ymchwil, yn helpu PIs i ehangu eu portffolios ymchwil, a datrys y dagfa bresennol o ran cyflwyno treialon.

**Rydym bellach wedi dechrau hysbysebu'r rôl a'r nod yw y bydd y swydd wedi'i llenwi ac yn weithredol yn 2025.**

## Cynyddu Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltiad o ran Ymchwil ar draws yr holl grwpiau staff

Rydym yn cydweithio â'r Tîm Nyrso Corfforaethol i integreiddio addysg ymchwil i raglenni anwytho staff a datblygu modiwl hyfforddi ymchwil ar y Cofnod Staff Electronig (ESR). Ein nod hefyd yw defnyddio'r dull hwn eto ar draws disgyblaethau eraill, ochr yn ochr â'n hymdrechion ehangach i ymgorffori amser ymchwil pwrpasol mewn cynlluniau swydd a chynnwys cyfrannu at ymchwil o fewn dogfennaeth arfarnu ar draws gweithlu'r Bwrdd Iechyd.

## Cryfhau Cydweithrediadau a Phartneriaethau gyda Prifysgolion

Rydym wedi bod ag uchelgais erioed i sefydlu perthnasoedd cryfach â phartneriaid prifysgol, ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Rydym yn meincnodi yn erbyn byrddau iechyd eraill ac yn defnyddio arbenigedd o fewn ein sefydliad. Amlygir y pwysigrwydd ymhellach yn Fframwaith Ymchwil a Datblygu GIG HCRW (3). Rydym yn archwilio cyfleoedd o fewn rhwydweithiau clefydau a phartneriaethau a ariennir gan HCRW, a fydd yn aml yn cynnwys ffrydiau ariannu sy'n cynnwys cymorth datblygiadol i ymchwilwyr newydd a swyddi a gyllidir ar y cyd.

# Buddsoddiad mewn staff a Seilwaith Cyfleoedd i'r Gweithlu

Y Camau  
Nesaf:

## Cefnogaeth i Ymchwilwyr sy'n Datblygu

Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ariannu ac amser gwarchodedig drwy Gyfadran HCRW. Mae gwobrau personol yn wobrau y gellir eu cael am gyfnod penodol o amser unigolyn, er mwyn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil penodol. Gallant fod yn amhrisiadwy i glinigwyr sy'n dymuno datblygu eu gyrfa ymchwil ond sy'n cael trafferth dod o hyd i'r amser. Wrth edrych ymlaen, ein nod yw cryfhau'r berthynas hon drwy sefydlu dulliau cyfathrebu mwy rheolaidd ac arddangos unigolion sydd wedi elwa o'r cynlluniau hyn. Argymhellir yn gryf y dylai unigolion sy'n dymuno gwneud cais am wobrau gysylltu â'r adran Ymchwil a Datblygu yn gynnar, fel y gallwn ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd.

Cefnogir y gwaith hwn gan arbenigedd ein AMD, datblygu gwell cyfathrebu yn fewnol ac yn allanol trwy'r gwaith o gyflwyno ein strategaeth, a'n rhwydwaith sy'n ehangu o staff sy'n cymryd rhan trwy restrau dosbarthu e-bost sy'n tyfu. Gan adeiladu ar hyn, rydym yn bwriadu cynnal sesiynau cymorth cyn dyddiadau cau ymgeisio a datblygu cyfleoedd dysgu megis sesiynau ar "Sut i fod yn Brif Ymchwilydd?"

# Buddsoddiad mewn Staff a Seilwaith Gwasanaethau Cymorth

## Effaith Gadarnhaol Integreiddio Fferylliaeth i'r Ganolfan Ymchwil

Cyn agory Cyfleuster Ymchwil Clinigol (CRF), rhoddwyd cefnogaeth fferyllol i'r maes ymchwil mewn treialon clinigol o sawl lleoliad ledled y Bwrdd Iechyd. Roedd sefydlu'r CRF yn golygu y gallid cydgrynhoi'r tîm ymchwil a'r gwasanaethau cymorth allweddol ond, i yn y lle cyntaf, nid oedd hyn yn cynnwys tîm fferyllol y treialon clinigol.

Yn 2024, gwnaed y penderfyniad i adleoli tîm fferyllol y treialon clinigol i'r ganolfan Ymchwil a Datblygu. Roedd hyn yn dilyn cynllunio gofalus, gan gynnwys cynnal asesiad risg cynhwysfawr er mwyn ystyried y goblygiadau o ran cyfleusterau, arferion gwaith, a gofal cyfranogwyr. Er y rhagwelwyd y byddai ambell i her, roedd y manteision posibl yn amlwg, ac mae'r canlyniadau cadarnhaol wedi rhagori ar ddisgwyliadau.

Mae'r fenter gwella gwasanaeth hon yn dangos gwerth gweithio integredig ac yn tynnu sylw at y modd y gall cydweithio ar draws adrannau wella'r ffordd y caiff ymchwil ei gyflawni, gwella profiad cleifion, a lleihau risg.

### Manteision allweddol integreiddio:

- **Gwell cyfathrebu.** Mae gweithio yn yr un lleoliad wedi sicrhau y gall timau fferylliaeth a thimau ymchwil drafod yn gynt ac yn gliriach.
- **Llai o Amser i Sefydlu Astudiaethau:** Mae gwell cydweithio a gweithio yn nes wedi arwain at allu rhoi treialon ar waith yn gynt.
- **Mwy o Bresenoldeb Clinigol:** Mae argaeledd y tîm fferyllol ar y safle wedi gwella'r cymorth a roddir i dreialon o ddydd i ddydd
- **Amseroedd Aros Byrrach i Gyfranogwyr:** Mae dosbarthu meddyginiaeth yn gyflymach wedi gwella profiad y cyfranogwyr
- **Llai o Wallau:** Mae gwell goruchwyliaeth a protocolau a rennir wedi arwain at ostyngiad yn nifer y gwallau o ran dosbarthu.

*“Mae integreiddio'r tîm fferyllol ymchwil i'r Uned Cyflawni Ymchwil wedi gwella ein gallu i ddarparu ymchwil o ansawdd uchel yn sylweddol. Trwy weithio fel un tîm, rydym wedi gwella cyfathrebu, symleiddio'r ffordd y caiff problemau eu huwchgyfeirio, wedi gwneud y gorau o le storio, ac wedi lleihau amseroedd dosbarthu, gan sicrhau profiad mwy esmwyth a mwy effeithlon i staff a chleifion. “*

**Mae'r newid hwn wedi gosod y sylfaen ar gyfer gwelliannau gwasanaeth yn y dyfodol ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu ymchwil gydweithredol sy'n canolbwyntio ar y claf.**

### Heriau yr aethpwyd i'r afael â hwy:

- **Trosglwyddo Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliadol (IMPs):** Symudwyd yr holl gynhyrchion yn ddiogel i'r cyfleuster newydd.
- **Risg o Ddatguddio:** Rhoddwyd strategaethau lliniaru ar waith er mwyn cadw uniondeb treialon bob amser.
- **Ymwybyddiaeth ar draws y maes fferylliaeth:** Cyflwynwyd hyfforddiant ac fe gyfathrebwyd er mwyn cynyddu dealltwriaeth o brosesau CT ymhlith y tîm fferylliaeth ehangach.



# Lansio ein Hymchwil Rhaglen Hyrwyddwyr

**Ym mis Tachwedd 2024, roeddem yn falch o lansio ein Rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil, menter ddeinamig a chynhwysol a gynlluniwyd i ymgorffori ymchwil mewn gofal iechyd dydd i ddydd a'i wneud yn fwy hygyrch i staff, cleifion, gofalwyr, a'r gymuned ehangach.**

## Ymdrech Tîm o'r Cychwyn

Mae datblygiad y Rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil wedi bod yn ymdrech tîm wirioneddol. Dechreuodd gyda chystadleuaeth dylunio bathodynau, a arweiniodd nid yn unig at greu ein brand unigryw ond hefyd ysgogodd ymgysylltiad cynnar a chynhyrchu rhestr o ddarpar bencampwyr.



Dyluniwyd yr anwythiad cyntaf ddiwedd 2024 mewn modd anffurfiol, croesawgar a rhyngweithiol. Bydd pob sesiwn yn cynnwys cyflwyniad byr am ymchwil yn y Bwrdd Iechyd, taith dywys o amgylch yr adran, cyfleoedd i gwrdd â'r tîm ymchwil ehangach a'n gweithgaredd "rhwydweithio cyflym" sydd bellach yn boblogaidd. Mae'r adran gyfan yn cyfrannu at y sesiwn hon, gan danlinellu'r cyd-ymrwymiad i gefnogi ymchwil ar draws gwasanaethau.

Cynhelir sesiynau anwytho bedair gwaith y flwyddyn, a does dim lle ar ôl ar nifer i'r sesiynau. Mae hyn yn pwysleisio'r diddordeb cynyddol yn y Rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil yn chwarae rhan allweddol wrth adeiladu diwylliant ymchwil sy'n gynhwysol, yn hygyrch, ac yn gynaliadwy. Drwy recriwtio hyrwyddwyr o ystod eang o adrannau, llawer ohonynt heb gymryd llawer o ran mewn ymchwil cyn hyn, rydym yn dechrau symud diwylliant sefydliadol o'r gwaelod i fyny.



Rydym wedi cyfathrebu yn fewnol ac yn allanol ac mae hyn wedi bod yn allweddol i lwyddiant y lansiad, gan ein helpu i hyrwyddo'r rhaglen. Mae HCRW wedi helpu i chwyddo'r rhaglen yn genedlaethol.

**Mae'r fenter Hyrwyddwyr Ymchwil yn nodi cam sylweddol ymlaen o ran ein cenhadaeth i wneud ymchwil yn fwy gweladwy, cynhwysol, ac wedi'i wreiddio mewn gofal iechyd dydd i ddydd. Mae'n adlewyrchu'r gred bod gan bawb rôl i'w chwarae mewn ymchwil.**



*"Mae deall y gallwn i gyfrannu cymaint neu cyn lleied ag yr oeddwn ei eisiau yn fy annog i gymryd rhan. Roeddwn i eisiau archwilio sut y gallwn integreiddio ymchwil i'm rôl er mwyn gwella canlyniadau cleifion."*

**— Jessica Jones, Ffisiolegydd Anadlol a Hyrwyddwr Ymchwil**

# Rhaglen ymchwil syml, effeithlon ac arloesol

## Rôl yr Hyrwyddwr Ymchwil

Mae rôl Hyrwyddwr Ymchwil yn hyblyg yn fwriadol ac yn agored i unrhyw un sydd ag angerdd dros wella iechyd a gofal drwy ymchwil. Mae'r Hyrwyddwyr yn gwasanaethu fel cysylltiadau hanfodol rhwng ein Tîm Ymchwil a'r boblogaeth ehangach, gan helpu i godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo cyfranogiad, a llunio astudiaethau mwy cynrychioliadol ac effeithiol.

Mae Hyrwyddwyr Ymchwil yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau sydd wedi'u teilwra i'w diddordebau a'u hargaeledd, ac maent yn gweithio fel **"Llais dros Ymchwil"** ar draws pob maes y sefydliad.



***"Drwy rymuso lleisiau amrywiol, staff, gofawyr, cleifion ac aelodau'r gymuned, gallwn sicrhau bod ymchwil yn adlewyrchu anghenion y rheiny yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r rhaglen hon yn dangos sut mae BIPAB yn ymgorffori ymchwil ar draws GIG Cymru." — Dr Nicola Williams, Cyfarwyddwr Cefnogi a Chyflawni, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru***



### Y Camau Nesaf:

Wrth i'r rhaglen Hyrwyddwyr Ymchwil barhau i dyfu, rydym wedi ymrwmo i werthuso ei effeithiolrwydd a dysgu o brofiadau'r rheiny sy'n cymryd rhan. Er ein bod yn dal yn nyddiau cynnar y rhaglen, rydym, wedi nodi meysydd allweddol lle yr ydym yn bwriadu mesur effaith yn y dyfodol ynddynt. Rydym hefyd yn archwilio'r defnydd o fetrigau i asesu newidiadau mewn gwybodaeth ymchwil, lefelau ymgysylltu, ac ehangu ymchwil i feysydd clinigol a chymunedol newydd. Bydd hyn yn ein helpu i fireinio'r rhaglen dros amser, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gynhwysol, yn ymatebol, a sicrhau ein bod wedi'n halinio gydag anghenion ein staff, ein cleifion, a'n cymunedau ehangach.

Rydym bellach yn cynllunio cam nesaf y datblygiad, sy'n cynnwys:

- Croesawu hyrwyddwyr sy'n gleifion ac yn wirfoddolwyr
- Ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol ac elusennau er mwyn ehangu'r model y tu hwnt i leoliadau ysbytai
- Monitro cynhwysiant ar draws rolau a thargedu ardaloedd nad oes cynrychiolaeth ynddynt
- Casglu data ar ymgysylltu, gwybodaeth, a gweithgarwch ymchwil lleol
- Addasu'r rhaglen yn barhaus mewn ymateb i adborth gan yr Hyrwyddwyr

# Blaen Gynllun

Ar adeg datblygu ein strategaeth ymchwil, cytunwyd y byddai'r cynllun gweithredu yn parhau i fod yn destun adolygiad parhaus, er mwyn cadw hyblygrwydd wrth ymateb i ganllawiau newydd, rheoliadau sy'n esblygu, strategaethau cenedlaethol, a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

## Cyllid VPAG

Un cyfle o'r fath yw'r Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Priso, Mynediad a Thwf Meddyginiathau wedi'u Brandio (VPAG), menter ariannu sy'n deillio o gydweithrediad rhwng Llywodraeth y DU a Chymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI) (6). Bydd y cynllun hwn yn buddsoddi tua £300 miliwn mewn ymchwil fasnachol ledled y DU, ac amcangyfrifir bod £20 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer Cymru.

Mae'r buddsoddiad hwn yn ymateb i ganfyddiadau *Lord O'Shaughnessy Review of Commercial Clinical Trials* (Mai 2023), a amlygodd ddirywiad sylweddol yng ngweithgaredd treialon clinigol y DU, gan ostwng yn y safleoedd rhyngwladol o'r 4ydd i'r 10fed. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at effaith y dirywiad hwn mewn gweithgarwch treialon clinigol masnachol, megis llai o gyfleoedd i gleifion yn y DU gael mynediad at driniaethau arloesol a allai wella, ymestyn, neu achub eu bywydau. At hynny, mae colled ariannol i'r GIG yn deillio o ostyngiad mewn gweithgarwch masnachol. Mae'n rhaid ariannu llawer o therapïau, meddyginiathau a gwasanaethau gofal iechyd a fyddai wedi cael eu hariannu gan gwmni fferyllol yn lle hynny gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd (5).

Mae'r buddsoddiad ariannu VPAG hwn yn cyflwyno cyfle unigryw i BIPAB wneud cais am gyllid ychwanegol i ymestyn y gweithlu ymchwil a datblygu portffolio mwy amrywiol o ran ymchwil masnachol. Nod BIPAB yw cyflwyno cais cyllid cynhwysfawr i gefnogi ymchwil fasnachol gyfredol ac i baratoi meysydd clefydau newydd. Os byddai'r cyllid hwn yn llwyddiannus byddai'r cyllid hwn yn ceisio mynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau i ymchwil fasnachol, gan gynnwys:

- Amser cyfyngedig i glinigwyr
- Cyfyngiadau capasiti mewn fferylliaeth, radioleg a patholeg
- Capasiti llywodraethu a chyflawni ymchwil
- Cymorth ariannol cyfyngedig

# Blaen Gynllun

## Cynnydd yn 2024



Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn llwyddiannus i'r adran Ymchwil a Datblygu, gan ein bod wedi cyrraedd sawl carreg filltir allweddol:

- Yn sgil penodi ein **Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt** mae gennym arweinyddiaeth a momentwm newydd, gan gynnwys sefydlu proses ar gyfer amser gwarchoddedig i glinigwyr gymryd rhan mewn ymchwil.
- Lansiom y rhaglen **Hyrwyddwyr** Ymchwil yn llwyddiannus, a bu hyn yn fodd o ymgorffori ymwybyddiaeth ymchwil a gallu ar draws y sefydliad.
- Mae cydweithio â phartneriaid allanol, gan gynnwys yr **HDRC**, wedi ein helpu i feithrin perthnasoedd llwyddiannus a mabwysiadu modelau newydd o weithio sy'n cryfhau ein gallu i gyflawni ymchwil yn ogystal â'n dull gweithredu.
- Mae ailsefydlu'r **Pwyllgor Ymchwil a Datblygu** wedi cryfhau ein fframwaith llywodraethu ac mae'n darparu goruchwyliaeth strategol sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau sefydliadol
- Rydym wedi bodloni holl fetrigau **cyflawni ymchwil Llywodraeth Cymru ac wedi** gwella ein hamseroedd sefydlu astudiaethau, gan sicrhau cyflwyniad effeithlon a gwell perfformiad ar draws ein portffolio ymchwil.

**Wrth edrych ymlaen, bydd ein ffocws ar fireinio dosbarthiad treialon, cefnogi'r gwaith o ymgorffori ymchwil, cryfhau galluoedd masnachol, a gwella effeithlonrwydd o ran sefydlu astudiaethau. Mae cyflwyno offer digidol newydd megis Florence yn nodi cam allweddol wrth foderneiddio seilwaith ymchwil a sicrhau cydymffuriad rheoleiddiol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.**

## Cyfeiriadau

1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan *Strategaeth Ymchwil a Datblygu 2023—2026* BIPAB, 2023. Ar gael yn: <https://abuhb.nhs.wales/files/research-and-development/abuhb-r-d-strategy-pages-english-final2-pdf/>
2. Llywodraeth Cymru *Dyletswydd ansawdd mewn gofal iechyd*. LLYW.CYMRU, 2023. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/duty-quality-healthcare>
3. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru *Fframwaith Ymchwil: Pam mae Ymchwil yn B* wysig. Llywodraeth Cymru Ar gael yn: <https://healthandcareresearchwales.org/about-research/research-framework>
4. Llywodraeth Cymru *Fframwaith y GIG ar gyfer Ymchwil a Datblygu*: LLYW.CYMRU, 10 Hydref 2023. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/nhs-framework-research-and-development-whc2023026>
5. O'Shaughnessy, J. *Commercial Clinical Trials in the UK: Adolygiad yr Arglwydd O'Shaughnessy*: Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 26 Mai 2023. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/commercial-clinical-trials-in-the-uk-the-lord-oshaughnessy-review>
6. Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. *UK secures £400 million investment to boost clinical trials*. GOV.UK, 25 March 2024. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/news/uk-secures-400-million-investment-to-boost-clinical-trials>
7. Chalmers, I. *Who was James Lind, and what exactly did he achieve?* James Lind Library, 2005. Ar gael yn: <https://www.jameslindlibrary.org/articles/who-was-james-lind-and-what-exactly-did-he-achieve/>
8. Prifysgol Birmingham. *The Loci Trial*. Uned Treialon Clinigol Birmingham, 2024. Ar gael yn: <https://www.birmingham.ac.uk/research/bctu/trials/womens/locitrial>
9. Llywodraeth Cymru *Polisi Cyllid Ymchwil a Datblygu'r GIG (WHC/2018/005)*. LLYW.CYMRU, 22 Mawrth 2018. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/nhs-research-and-development-finance-policy-whc2018005>
10. International Council for Harmonisation of Technical Requirements for Pharmaceuticals for Human Use (ICH). *ICH Harmonised Guideline: Integrated Addendum to ICH E6(R1) – Guideline for Good Clinical Practice E6(R2)*. 9 Tachwedd 2016 Ar gael yn: [https://database.ich.org/sites/default/files/E6\\_R2\\_Addendum.pdf](https://database.ich.org/sites/default/files/E6_R2_Addendum.pdf)
11. National Institute for Health and Care Research (NIHR). *Associate Principal Investigator Scheme*. NIHR, 2024. Ar gael yn: <https://www.nihr.ac.uk/career-development/clinical-research-courses-and-support/associate-principal-investigator-scheme>

## Argymhellion

Gofynnir i'r tîm Gweithredol nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol a'i gyflwyno i'r PQSOG er gwybodaeth a'i gyflwyno i'r Bwrdd.

